



Polisi a chanllawiau ar gefnogi plant i reoli eu harian

Rheoliad 45

HANES Y DDOGFEN			
Rhif y fersiwn hon:	1	Statws: (drafft/ terfynol)	drafft
Dyddiad Ysgrifennwyd	Hydref 2023	Dyddiadau cyhoeddi ar gyfer ymgyngoriad	Tachwedd 2023
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb			
Dogfennau ategol			
Awdurdodwyd gan: Bennaeth Gwasanaeth y Tîm Rheoli Plant/ Oedolion	Dyddiad: 21.12.23	Cadarnhawyd gan: J Llewellyn	Dyddiad:
Cyfrifoldeb Arweiniol: Joe Rhys Jones	Awdur: Laura Roberts	Dyddiad Gweithredu: Mawrth 2024	Dyddiad Adolygu: Mawrth 2024 Medi 2025
Canlyniad yr Adolygiad:			

Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
Nod	4
Ystod	4
Y modd y mae plant yn cael eu hannog a'u cefnogi i drin eu harian eu hunain	5
Y modd y bydd plant yn cael eu cefnogi, gan gynnwys agor a rheoli cyfrifon banc, cyllidebu a gwneud penderfyniadau gwariant	5
Y modd y mae plant yn cael eu cefnogi i ddeall a rheoli unrhyw risgiau cysylltiedig	6
Y modd y bydd plant yn cael eu cefnogi i ddeall a chael mynediad at unrhyw lwfansau ariannol y gallai fod ganddynt hawl iddynt	7
Y modd y bydd cofnodion a derbyniadau gwariant sy'n gysylltiedig â chynilion plentyn yn cael eu trin pan fydd lleoliad yn dod i ben	7
Lle nad yw plant yn gallu rheoli eu harian eu hunain	8
Trefniadau i sicrhau bod rhieni maeth yn cadw cofnodion a derbyniadau o unrhyw drafodion ariannol ar eu rhan	8
Trefniadau ar gyfer goruchwyllo a monitro cynilion plentyn	9

Nod y Polisi:

- Galluogi gofalwyr maeth i ddarparu cymorth i blant ynghylch sut i reoli eu harian.
- Rhoi camau sydd i'w cymryd gan ofalwyr maeth i alluogi a chefnogi plant rhag cam-drin ariannol.
- Sicrhau goruchwyliaeth a monitro digonol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful o'r arbedion a wneir gan ofalwyr maeth ar ran y plant yn eu gofal.
- Sicrhau bod gofalwyr maeth yn trosglwyddo'r holl gofnodion o gynilion (gan gynnwys gwariant o gynilion) i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful pan fydd y lleoliad yn dod i ben.
- Sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal wedi cael y cyfle i gymryd perchnogaeth o'u cyllid, dysgu sgiliau llythrennedd ariannol a rheolaeth a chael cyfle i ymarfer wrth ddatblygu strategaethau mewn perthynas ag opsiynau cynilo hirdymor.

Ystod y Polisi:

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob Plentyn sy'n derbyn gofal ac sydd yng ngofal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar neu ar ôl 31 Mawrth 2024 ac nid ydynt wedi'u rhestru o fewn y gwaharddiadau isod:

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal sydd: -

- Wedi'u gosod gyda'u rhiant/rhieni ar y sail:
 - a) Nid yw'r rhieni'n derbyn lwfansau gan yr Awdurdod Lleol i ariannu cyfraniadau wythnosol.
 - b) Efallai bod gan rieni drefniadau cynilo eisoes ar waith ar gyfer eu plentyn/ plant.
 - c) Mae plentyn sy'n ddarostyngedig i'r trefniadau hyn yn debygol o ddychwelyd at ofal llawn amser eu rhieni, heb orchymyn gofal, yn y tymor byr i ganolig.
- Wedi'i roi i'w fabwysiadu ar y sail:
 - a) Nid yw mabwysiadwyr yn derbyn lwfansau awtomatig gan yr Awdurdod Lleol i ariannu cyfraniadau wythnosol.
 - b) Efallai y bydd gan fabwysiadwyr eisoes drefniadau cynilo ar waith ar gyfer eu plentyn/ plant.
- Derbyn seibiannau tymor byr/gofal seibiant/ neu o dan reoliad 26, ar y sail:
 - a) Mae natur y lleoliadau tymor byr yn golygu na fyddant byth yn derbyn gofal barhaus am flwyddyn neu'n rhagor.
 - b) Nid oes cynllun gofal hirdymor am dros flwyddyn.
- Wedi'i leoli mewn llety â chymorth
- Os ydynt yn 18 oed. Bydd plant o dan 18 oed yn parhau o fewn y polisi hwn.

Y modd y mae plant yn cael eu hannog a'u cefnogi i drin eu harian eu hunain

Mae lwfansau maethu yn cael eu telu i bob gofalwr maeth a dylent dalu am y gost lawn o ofalu am y plentyn y maent yn gofalu amdano. O fewn y lwfans maethu mae elfen ar gyfer treuliau personol, gan gynnwys arian poced ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Mae gan blant a phobl ifanc anghenion gwahanol iawn a bydd y ffordd y defnyddir y treuliau personol yn wahanol i bob person ifanc. Dylent hefyd helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau, y cymhwysedd a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer bywyd pan fyddant yn oedolion.

Yn dibynnu ar ddealltwriaeth y plentyn neu'r person ifanc sydd mewn gofal maeth, dylent hefyd fod yn rhan o'r drafodaeth ynghylch sut y dylid rheoli a defnyddio elfen treuliau personol y lwfans maethu.

Mae gan ofalwyr maeth rôl i addysgu'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal ynghylch sut i reoli eu harian a'u cyllideb, a'u hannog i gynilo ar gyfer eu dyfodol.

Dylai arian poced fod yn swm penodol o arian a dylai'r person ifanc fod yn ymwybodol o'r swm hwn a chaniatáu iddo ddefnyddio hwn ym mha bynnag ffordd y maent yn ei ddewis, gyda chymorth ac arweiniad priodol gan oedolion. Dylid rhoi goruchwyliaeth i blant iau a dylid eu hannog i drafod sut mae eu harian yn cael ei wario ac i ddeall sgiliau cyllidebu sylfaenol ac am wneud dewisiadau wrth drin arian yn ifanc iawn. Dylid annog plant hŷn i ddechrau cymryd mwy o gyfrifoldeb am gyllidebu, a allai gynnwys prynu eu ffôn symudol eu hunain, talu am nwyddau ymolchi personol neu ariannu gweithgareddau. Gallai cynilo ar gyfer eitem neu daith fwy ddod yn rhan o gynllun gofal y plentyn a gellid targedu cynilo at y diben hwn. Wrth i'r person ifanc ddechrau symud tuag at annibyniaeth, yna gellid eu hannog i brynu nwyddau at y diben hwn hefyd.

Dylai trafodaethau am arian poced gynnwys gweithiwr cymdeithasol a gofalwr maeth y plentyn.

Dylid sefydlu cyfrif ychwanegol ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n dymuno cynilo/gwario'n ddoeth ac sy'n cynilo ar gyfer nod penodol er enghraifft gwyliau neu eitemau personol.

Sut y bydd plant yn cael eu cefnogi, gan gynnwys agor a rheoli cyfrifon banc, cyllidebu a gwneud penderfyniadau gwariant

Dylai plant a phobl ifanc gael cyfrif banc a dylai'r cyfrif gael ei sefydlu a'i reoli gan ofalwyr maeth. Os nad oes gan blentyn/person ifanc gyfrif cynilo, dylai'r gofalwr geisio sefydlu cyfrif cyn gynted â phosibl.

Nid yw sefydlu cyfrif banc/cynilo bob amser yn hawdd ac mae gan wahanol fanciau amrywiaeth o reoliadau ar gyfer y broses hon. Bydd angen i ofalwyr maeth ymchwilio i'r mater er mwyn dod o hyd i'r cyfrif mwyaf addas ar gyfer gofynion y plentyn/person ifanc. Rhaid i blant gael mynediad i'w cyfrifon banc ond mae angen i ofalwyr maeth gefnogi pobl ifanc i adeiladu a chadw arian fel bod arian ar gael iddynt pan fyddant yn dod yn annibynnol.

Yn gyffredinol, bydd gofalwr maeth yn gofyn am brawf o hunaniaeth plentyn a gellir cael tystysgrif geni at y diben hwn. Dylai gweithiwr cymdeithasol y plentyn allu helpu i gael gafael ar y dogfennau angenrheidiol.

Gellir dirprwyo'r awdurdod i'r gofalwr maeth ddod yn "ymddiriedolwr" y cyfrif banc mewn cyfarfod cynllunio lleoliad. Mae'r weithred hon yn arbennig o briodol ar gyfer lleoliadau hirdymor. Ar gyfer lleoliadau byrrach gall rhieni fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Gellir cynnwys hwn yn y gwaith papur ar gyfer "Awdurdod Dirprwyedig."

Dylai pob banc gael uned arbenigol y gellir cyfeirio achosion "ansafonol" atynt. Os oes anawsterau wrth agor cyfrif ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal yna dylai'r staff yn y banc lleol allu dweud wrthyich sut i gysylltu â'r uned hon am gymorth.

Ni ddylai cynilion i'r plentyn maeth byth fod yng nghyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r gofalwr maeth ei hun ond mewn cyfrif sy'n galluogi rhoi ffin glir ar arian y plentyn.

Bydd gan bob plentyn naill ai Gronfa Ymddiriedolaeth Plant (CTF yw'r talfyriad Saesneg) neu gyfrif ISA i Blant lau sy'n cael ei gefnogi gan y llywodraeth, lle gellir talu arian pellach. Gall hwn fod unig gyfrif cynilo'r plentyn neu gall fod yn gyfrif ychwanegol. Er mai dim ond un gronfa ymddiriedolaeth neu ISA y gall person ifanc ei gael, caniateir cyfrifon cynilo eraill. Trafodir hwn mewn polisi ar wahân ac felly ni fydd yn cael ei drafod ymhellach yn y fan hon.

Y modd y mae plant yn cael eu cefnogi i ddeall a rheoli unrhyw risgiau cysylltiedig

Mae'n ddymunol bod gan blentyn/person ifanc mewn gofal hirdymor gyfrif cynilo fel y disgrifir uchod a chyfrif banc ychwanegol i gefnogi rheoli arian yn annibynnol.

Gall cynilion dros £6,000 yng nghyfrifon personol y person ifanc effeithio ar eu gallu i gael mynediad at fudd-daliadau. Dylid gofyn am gyngor ariannol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed, rhieni sengl a phlant anabl, gan eu bod yn bobl ifanc a allai fod yn gymwys i gael budd-daliadau lles yn 16 oed.

Dylid talu arian poced ar y gyfradd y cytunwyd arno yn y cyfarfod Cynllunio Lleoliad ac anogir y plentyn i gael blwch arian neu gynhwysydd arall lle gallant gynilo eu harian yn ddiogel yn y tymor byr. Dylid talu unrhyw arian dros ben neu arian ychwanegol i'w cyfrif banc/cynilo. Dylid annog y plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan yn rhedeg y cyfrif hwn yn ôl oedran/dealltwriaeth briodol. Mae cyfrif gyda llyfr pas a / neu gyfnod rhybudd ar gyfer tynnu'n ôl yn fwyaf priodol at y diben hwn. (Efallai y bydd y Rhwydwaith Maethu yn gallu cynghori ar brofiadau yn eich ardal).

Dylid adolygu arian poced yn rheolaidd a dylai trafodaethau i ystyried unrhyw newidiadau gynnwys y gofalwyr maeth, y plentyn/person ifanc a'u gweithiwr cymdeithasol.

Gellir rheoli talu arian poced yn hyblyg i gynnwys y posibilrwydd o ennill arian ychwanegol ar gyfer ymgymryd â thasgau ac fel gwobr neu gymhelltiant, e.e. gwneud

yn dda yn yr ysgol. Dylid talu unrhyw arian dros ben neu arian ychwanegol i'w cyfrif banc/cynilo.

Gan fod pobl ifanc yn gallu cymryd mwy o gyfrifoldeb am reoli eu harian eu hunain, dylai trafodaethau gael eu cynnal rhwng y person ifanc a'r gofalwr maeth ynglŷn â faint o arian sy'n cael ei roi i'r person ifanc a beth ddylen nhw fod yn ei ddarparu iddyn nhw eu hunain allan o'r arian hwnnw a dylai bod bob person yn y cytuno ar y trefniant.

Unwaith y bydd y plentyn/person ifanc yn derbyn lwfans personol, mae'n debygol y bydd disgwyliadau arnynt i ariannu eitemau personol. Byddai hwn yn cael ei gytuno mewn cyfarfodydd Cynllunio Lleoliad a dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r plentyn yn cael ei annog i fynd i ffordd o fyw a fyddai'n anfforddiadwy yn y dyfodol. Gallai arian ychwanegol gael ei roi mewn cynilion i osgoi'r sefyllfa hon.

Gellir ystyried amrywiad arian poced yn rhesymol i gyd-fynd â phlant y gofalwyr maeth eu hunain er mwyn osgoi gwrthdaro o fewn y teulu maeth, ond dylai fod o fewn y "symiau a argymhellir". Dylid talu unrhyw wahaniaeth i gyfrif banc/cynilo neu gronfa ymddiriedolaeth y plentyn maeth.

Dylai arbedion bob amser fod yn gyson â'r swm a argymhellir, gan fod y plentyn maeth yn debygol o fod mewn sefyllfa anffafriol yn y dyfodol o'i gymharu â phlant geni ac felly mae angen mynediad at gynilion.

Ni ellir tynnu cynilion yn ôl at ddibenion digolledu gofalwyr maeth neu aelodau o'u teuluoedd.

Y modd y bydd plant yn cael eu cefnogi i ddeall a chael mynediad at unrhyw lwfansau ariannol y gallai fod ganddynt hawl iddynt

Mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi i gynllunio ar gyfer annibyniaeth drwy'r broses cynllunio llwybr, sy'n dechrau wrth i bobl ifanc agosáu at 16. Fel rhan o'r cymorth hwn, rhoddir cefnogaeth benodol sy'n ymwneud â chyllid a chyllidebu, gyda mynediad i gyrsiau rheoli arian perthnasol pan fo angen.

Y modd y bydd cofnodion a derbyniadau gwariant sy'n gysylltiedig â chynilion plentyn yn cael eu trin pan fydd lleoliad yn dod i ben

Os yw plentyn yn symud i leoliad newydd, yna dylai'r arian symud gyda nhw i'w gofalwyr maeth newydd. Dylai hwn fod yn ystyriaeth i'r gweithiwr cymdeithasol a'r gofalwyr maeth a dylid ei adolygu gan y gweithiwr cymdeithasol yn dilyn unrhyw symud lleoliad. Dylid darparu copiâu o dderbynebau unrhyw wariant i weithiwr cymdeithasol y plentyn a'u cadw ar gofnodion WCCIS y plentyn i'w cyfeirio at yn y dyfodol.

Ar gyfer darparwyr allanol, bydd y disgwyliadau o gadw cofnodion a derbynebau a darparu'r rhain ar ddiwedd y lleoliad yn unol â darparwyr mewnol a chopïau a ddarperir ar ddiwedd y lleoliad.

Byddai darparu'r dogfennau hyn yn unol ag adolygiadau Plant sy'n Debryn Gofal yn galluogi cofnod i gael ei gynnal ac yn caniatáu goruchwyliaeth gan y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystod lleoliad y plentyn.

Os oes gan blentyn gyfrif cynilo presennol, rhaid i'r gofalwr maeth sicrhau bod y cyfrif yn cael ei ddiweddarau gyda'r cyfeiriad/gwybodaeth newydd. Rhaid i'r gofalwr blaenorol rannu'r wybodaeth hon cyn i'r plentyn/person ifanc adael y lleoliad.

Lle nad yw plant yn gallu rheoli eu harian eu hunain

Lleoliadau i fabanod - 0-2 oed

Dylai'r gofalwr maeth arbed yr holl gynilion a ddyrannwyd a'r arian poced a ddyrannwyd ar gyfer plant o dan ddwy flwydd oed.

Dylid gofyn am ganllawiau ar agor cyfrif cynilo ar gyfer babi gan y gweithiwr cymdeithasol maethu.

Dylai plant/pobl ifanc nad ydynt yn gallu rheoli eu harian eu hunain gael cynllun cynilion/rheoli ariannol fel rhan o'u Cynllun Gofal a Chefnogaeth. Dylid cytuno ar hwn yn yr adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal a chytuno nad oes dewisiadau amgen i gefnogi'r plentyn/person ifanc i reoli eu harian eu hunain ar y cam hwnnw. Dylid adolygu hwn ym mhob adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal i sicrhau nad oes unrhyw newidiadau a fyddai'n caniatáu i'r person ifanc reoli ei arian ei hun.

Trefniadau i sicrhau bod rhieni maeth yn cadw cofnodion a derbyniadau o unrhyw drafodion ariannol ar eu rhan

Rhaid i gyfrifon cynilo adlewyrchu enw a manylion y plentyn/person ifanc a dylent fod yn drosglwyddadwy. [Hawdd ei drosglwyddo os yw plentyn yn symud lleoliad]. Nid yw'n dderbyniol i gyfrif cynilo fod yn gyfrif ychwanegol o fewn cyfrif banc y gofalwr maeth.

Dylid trafod a chofnodi manylion ynglŷn â chyfrif cynilo (a chynllun) y plentyn/person ifanc a'u cofnodi yng nghynllun lleoli'r plentyn/person ifanc.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo yn monitro rheolaeth y cyfrif cynilo yn ystod cyfarfodydd goruchwyllo ffurfiol statudol. Bydd yn ofynnol iddynt weld cyfrifon a thystiolaeth o adneuon a wnaed.

Dylai gofalwyr maeth gyflwyno crynodebau cynilo wedi eu hargraffu ar gyfer adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal.

Bydd crynodebau cyfrifon, gan gynnwys cyfansymiau, yn cael eu cofnodi ar ffeil WCCIS y plentyn gan y gweithiwr cymdeithasol gofal plant.

Trefniadau ar gyfer goruchwyllo a monitro cynilion plentyn

- Lleoliadau brys - cyfrifoldeb y gofalwr yw canfod a oes gan y plentyn/person ifanc gyfrif cynilo.
- Lleoliadau seibiant - Disgwylir na fydd gofawyr seibiant yn adneuo mewn cyfrifon cynilo, dylai hwn gael ei reoli gan y gofalwr rheolaidd.
- Lleoliadau mamau a babanod – bydd cynilion a chyfrifon yn cael eu trafod a'u cytuno yn y cyfarfod cynllunio lleoliad.
- 16+ Dylid ystyried hwn fesul achos a chytuno o fewn eu cynllun Llwybr.
- Bydd adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn monitro ac yn goruchwyllo'r trefniadau cynilo ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Disgwylir i Weithiwr Cymdeithasol / Cynghorydd Personol ar gyfer y Plentyn sy'n Derbyn Gofal neu berson ifanc sicrhau:

Eu bod yn cefnogi'r plentyn / person ifanc i ddatblygu sgiliau gallu ariannol sy'n briodol i'w hoedran.

- Bydd unrhyw arian a ddeler gan leoliadau ar gyfer y plentyn yn cael ei drosglwyddo pan fydd newid lleoliad.
- Rhoddir gwybodaeth briodol i bobl ifanc yn 16 a 18 oed ynglŷn â'u hawliau budd-daliadau.

Disgwylir i Staff Gwasanaethau Plant eraill:

- Ddeall y polisi cynilo a'r gweithdrefnau ynghylch plant sy'n derbyn gofal a dylent fod yn ymwybodol o unrhyw gysylltiadau sy'n berthnasol i'w rôl.

Disgwylir i'r Tîm Comisiynu Plant sicrhau bod:

- Copi o Bolisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cael ei roi i bob darparwr lleoliad allanol cyn i blentyn gael ei leoli.
- Materion sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio â pholisi a disgwyliadau yn cael eu trafod yn gynnar gyda'r darparwr a'u cyfeirio at y Prif Swyddog Parhaol gyda chyfrifoldeb am Blant sy'n Derbyn Gofal os na allant ddatrys y mater.
- Darparwyr lleoliad allanol yn derbyn nodiadau atgoffa rheolaidd o'r polisi.

Disgwylir i'r Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer plant neu berson ifanc sicrhau fel rhan o broses Adolygu'r Plentyn sy'n Derbyn Gofal:

- Bod y plentyn / person ifanc yn ymwybodol o'u cyfrif cynilo
- Pan fo person ifanc yn cael adolygiad terfynol ar ôl ei ben-blwydd yn 18 oed, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn sicrhau bod gweithiwr cymdeithasol / Cynghorydd Personol y person ifanc wedi eu cefnogi i gael mynediad i'w gyfrif cynilo.

- Deall y polisi cynilo a'r gweithdrefnau ynghylch plant sy'n derbyn gofal a bod yn ymwybodol o unrhyw gysylltiadau sy'n berthnasol i'w rôl.

Dylid trafod tynnu'n ôl gyda gweithiwr cymdeithasol plentyn/person ifanc cyn i'r plentyn/person ifanc gael mynediad i'w gyfrif.

Ffurflen Adborth
Enw'r polisi:

Rhowch fanylion adnabod o 'Hanes y Ddogfennau' o'r clawr blaen os gwelwch yn dda

Rhif y Fersiwn:

Statws:
(drafft/terfynol)

Y Dyddiad
ysgrifennwyd y
ddogfen:

Dyddiad y cyhoeddwyd
y ddogfen ar gyfer yr
ymgyngoriad

Byddai'r **Grŵp Datblygu Polisi** yn gwerthfawrogi eich awgrymiadau a'ch sylwadau i'w hystyried ar gyfer yr **Adolygiad** nesaf. Hoffem eich adborth ynghylch y ddogfen hon a byddem yn croesawu eich barn ar yr hyn y dylid ei ychwanegu, ei dynnu neu ei newid. Hoffem hefyd gael gwybod am:

- Faterion arfer neu hyfforddiant cysylltiedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Unrhyw feysydd arfer a fyddai o fudd i ofal defnyddwyr y gwasanaeth trwy gael eu hychwanegu at y ddogfen, neu unrhyw agweddau eraill ar arfer y dylid eu cynnwys yma
- Unrhyw wallau ffeithiol neu anghywirdebau yn y ddogfen
- Materion cysylltiedig eraill a fyddai'n helpu i lywio'r Polisi.

Defnyddiwch y gofod isod a throsodd ar gyfer eich sylwadau.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech chi ddyddio'ch sylwadau.

Mae croeso i chi ychwanegu neu beidio ag ychwanegu eich manylion adnabod eich hun fel y gwelwch yn dda.

Dychwelwch eich barn at

Os hoffech y wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â Rheolwr Tîm Maethu Cymru